OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1429 (Cy.179)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Gweinidogion Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2012

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r eiddo a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 1, ar 1 Mehefin 2012 (a'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r eiddo), oddi wrth Weinidogion Cymru i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (yr Ymddiriedolaeth).

Mae erthygl 3 yn darparu ar gyfer trosglwyddo'r eiddo a restrir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, ar 1 Mehefin 2012 (a'r hawliau a'r rhwymedigaethau sy'n deillio o'r eiddo hwnnw), oddi wrth y Bwrdd Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, i'r Ymddiriedolaeth.

Mae erthygl 4 yn darparu bod rhaid i'r Ymddiriedolaeth lynu wrth delerau unrhyw lesoedd a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth gan erthyglau 2 a 3.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 1429 (W.179)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

## The Welsh Ministers and Local Health Boards (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2012

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

Article 2 of this Order provides for the transfer, on 1 June 2012, of the property listed in column 1 of Schedule 1 (and rights and liabilities arising from the property), from the Welsh Ministers to Velindre National Health Service Trust (the Trust).

Article 3 provides for the transfer, on 1 June 2012, of the property listed in column 2 of Schedule 2 (and rights and liabilities arising from such property) from the Local Health Board listed in column 1 of that Schedule to the Trust.

Article 4 provides that the Trust must abide by the terms of any leases that have been transferred to the Trust by articles 2 and 3.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2012 Rhif 1429 (Cy.179)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

# Gorchymyn Gweinidogion Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mehefin 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) a pharagraff 9 o Atodlen 3 iddi yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweinidogion Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 1 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y dyddiad trosglwyddo" ("*the transfer date*") yw 1 Mehefin 2012;

ystyr "yr Ymddiriedolaeth" ("*the Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre a sefydlwyd gan Orchymyn Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**2**).

**Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau**

**2**. Ar y dyddiad trosglwyddo, mae'r eiddo a restrir yng ngholofn 1 o Atodlen 1, ac unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sy'n deillio o'r eiddo hwnnw yn cael ei drosglwyddo oddi wrth Weinidogion Cymru i'r Ymddiriedolaeth.

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) O.S. 1993/2838 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/826; O.S. 2002/442 (Cy.57); O.S. 2002/2199 (Cy.219); O.S. 2009/2059 (Cy. 178) ac O.S.2012/1262 (Cy.157).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2012 No. 1429 (W.179)

# NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

# The Welsh Ministers and Local Health Boards (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2012

| | |
|---|---|
| *Made* | *29 May 2012* |
| *Coming into force* | *1 June 2012* |

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred on them by sections 203(9) and (10) and paragraph 9 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**) make the following Order.

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.—(1) The title of this Order is the Welsh Ministers and Local Health Boards (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2012 and it comes into force on 1 June 2012.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(3) In this Order:

"the transfer date" ("*y dyddiad trosglwyddo*") means 1 June 2012;

"the Trust" ("*yr Ymddiriedolaeth*") means Velindre National Health Service Trust established by the Velindre National Health Service Trust (Establishment) Order 1993(**2**)

**Transfer of property, rights and liabilities**

**2**. On the transfer date, the property listed in column 1 of Schedule 1, and any rights and liabilities arising from that property, will transfer from the Welsh Ministers to the Trust.

(**1**) 2006 c.42.

(**2**) S.I. 1993/2838 as amended by S.I. 1999/826; S.I. 2002/442 (W.57); S.I.2002/2199 (W.219); S.I. 2009/2059 (W. 178) and S.I.2012/1262 (W.157).

**3**. Ar y dyddiad trosglwyddo, mae'r eiddo a restrir yng ngholofn 2 o Atodlen 2, ac unrhyw hawliau a rhwymedigaethau sy'n deillio o'r eiddo hwnnw yn cael eu trosglwyddo oddi wrth y Bwrdd Iechyd Lleol a restrir yng ngholofn 1 o'r Atodlen honno, i'r Ymddiriedolaeth.

**4**.. Rhaid i'r Ymddiriedolaeth lynu wrth delerau unrhyw les a drosglwyddwyd iddi yn rhinwedd erthyglau 2 a 3.

**3**. On the transfer date, the properties listed in column 2 of Schedule 2, and any rights and liabilities arising from those properties, will transfer from the Local Health Board listed in column 1 of that Schedule to the Trust.

**4**. The Trust must abide by the terms of any lease that has been transferred to it by virtue of articles 2 and 3.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Mai 2012

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

29 May 2012

## ATODLEN 1

Erthygl 2

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Eiddo* | *Deiliadaeth* | *Rhif Teitl* |
| Tŷ Bevan, 24-30 Cilgant Lambourne, Llanisien, Caerdydd | lesddaliad | WA600597 |

## SCHEDULE 1

Article 2

| *Column 1* | *Column 2* | *Column 3* |
|---|---|---|
| *Property* | *Tenure* | *Title Number* |
| Bevan House, 24-30 Lambourne Crescent, Llanishen, Cardiff. | Leasehold | WA600597 |

## ATODLEN 2

Erthygle 3

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* | *Colofn 4* |
|---|---|---|---|
| *Bwrdd Iechyd Lleol* | *Eiddo* | *Deiliadaeth* | *Rhif Teitl (os yw'n gymwys)* |
| Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan | 13 Stad Ddiwydiannol Court Road, Cwmbrân. | lesddaliad | Dim yn Gymwys |
| Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan | 14 Stad Ddiwydiannol Court Road, Cwmbrân. | lesddaliad | Dim yn Gymwys |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 16 Cilgant Lambourne, Llanisien, Caerdydd. | lesddaliad | Dim yn Gymwys |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | 17 Cilgant Lambourne, Llanisien, Caerdydd. | lesddaliad | CYM272212 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Derbynfa, Llawr Gwaelod, Canolfan Oldway, Stryd y Berllan, Abertawe. | lesddaliad | CYM403072 |

## SCHEDULE 2

Article 3

| *Column 1* | *Column 2* | *Column 3* | *Column 4* |
|---|---|---|---|
| *Local Health Board* | *Property* | *Tenure* | *Title number (if applicable)* |
| Aneurin Bevan Local Health Board | 13 Court Road Industrial Estate, Cwmbran. | leasehold | N/A |
| Aneurin Bevan Local Health Board | 14 Court Road Industrial Estate, Cwmbran. | leasehold | N/A |
| Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board | 16 Lambourne Crescent, Llanishen Cardiff. | leasehold | N/A |
| Betsi Cadwaladr Morgannwg University Local Health Board | 17 Lambourne Crescent, Llanishen Cardiff. | leasehold | CYM272212 |
| Powys Teaching Local Health Board | Ground Floor Reception, Oldway Centre, Orchard Street, Swansea. | leasehold | CYM403072 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Llawr 8, Canolfan Oldway, Stryd y Berllan, Abertawe. | lesddaliad | CYM218480 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Llawr 11, Canolfan Oldway, Stryd y Berllan, Abertawe. | lesddaliad | CYM218480 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Ystafell Bost, Llawr Gwaelod, Canolfan Oldway, Stryd y Berllan, Abertawe. | lesddaliad | CYM306893 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Centurian Tavern, Llawr Gwaelod, Canolfan Oldway, Stryd y Berllan, Abertawe. | lesddaliad | CYM274671 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Llawr 7, Canolfan Oldway, Stryd y Berllan, Abertawe. | lesddaliad | CYM245479 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Llawr Gwaelod, Tŷ Cwmbrân, Stad Parc Mamheilad, Pont-y-pŵl. | lesddaliad | CYM250566 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Llawr 1, Tŷ Cwmbrân, Stad Parc Mamheilad, Pont-y-pŵl. | lesddaliad | CYM250409 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Llawr 6, Tŷ Churchill, Ffordd Churchill, Caerdydd. | lesddaliad | CYM269778 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Powys Teaching Local Health Board | 8th Floor Oldway Centre, Orchard Street, Swansea. | leasehold | CYM218480 |
| Powys Teaching Local Health Board | 11th Floor Oldway Centre, Orchard Street, Swansea. | leasehold | CYM218480 |
| Powys Teaching Local Health Board | Ground Floor Postroom Oldway Centre, Orchard Street, Swansea. | leasehold | CYM306893 |
| Powys Teaching Local Health Board | Ground Floor Centurian Tavern, Orchard Street, Swansea. | leasehold | CYM274671 |
| Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board | 7th Floor Oldway Centre, Orchard Street, Swansea. | leasehold | CYM245479 |
| Powys Teaching Local Health Board | Ground Floor, Cwmbran House, Mamhilad Park Estate, Pontypool. | leasehold | CYM250566 |
| Powys Teaching Local Health Board | 1st Floor, Cwmbran House, Mamhilad Park Estate, Pontypool. | leasehold | CYM250409 |
| Powys Teaching Local Health Board | 6th Floor, Churchill House, Churchill Way, Cardiff. | leasehold | CYM269778 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Swyddfa a Storfeydd, Llawr Gwaelod, Tŷ Aberhonddu, Stad Parc Mamheilad, Pont-y-pŵl. | lesddaliad | CYM534914 |
| Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys | Swyddfa a Storfeydd, Llawr Gwaelod, Tŷ Aberhonddu, Stad Parc Mamheilad, Pont-y-pŵl. | lesddaliad | CYM534953 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr | Alder House, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy. | lesddaliad | CYM340322 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Denbigh Stores, Stad Ddiwydiannol Colomendy, Ffordd y Rhyl, Dinbych. | rhydd-ddaliad | CYM312486 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Powys Teaching Local Health Board | Ground Floor, Office and Stores, Brecon House, Mamhilad Park Estate, Pontypool. | leasehold | CYM534914 |
| Powys Teaching Local Health Board | Ground Floor Stores, Brecon House, Mamhilad Park Estate, Pontypool. | leasehold | CYM534953 |
| Betsi Cadwaladr University Local Health Board | Alder House, St. Asaph Business Park, St Asaph. | leasehold | CYM340322 |
| Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board | Denbigh Stores, Colomendy Industrial Estate, Rhyl Road, Denbigh. | freehold | CYM312486 |

© Hawlfraint y Goron 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2012

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 1429 (Cy.179)

## Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Gweinidogion Cymru a Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau) (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2012 No. 1429 (W.179)

## NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Welsh Ministers and Local Health Boards (Transfer of Property, Rights and Liabilities) (Wales) Order 2012

£5.75

W1321/06/12 ON